Cefnogi Busnesau yng Ngwynedd
Supporting Businesses in Gwynedd

CYNGOR GWYNEDD COUNCIL

CYNGOR GWYNEDD COUNCIL

# Bwletin Gwasanaeth Cefnogi Busnes Gwynedd 23.12.2021

- Mae hwn yn fersiwn Gymraeg o ddau e-bost sydd yn cael eu gyrru allan, mae fersiwn Saesneg yn dilyn – gellir gweld holl fwletinau sydd wedi eu gyrru ar: https://www.gwynedd.llyw.cymru/busnescovid19

- This is the Welsh version of two emails sent out, the English version will follow – all sent bulletins can be accessed on: https://www.gwynedd.llyw.cymru/businesscovid19

# ARIANNU: £120 miliwn o gymorth brys i fusnesau

Mae mwy o fanylion ynglŷn â'r pecyn ariannu £120m, ar gyfer clybiau nos, digwyddiadau, manwerthu, lletygarwch, hamdden, busnesau twristiaeth a'u cadwyni cyflenwi yr effeithiwyd arnynt gan y symud i Lefel Rhybudd 2, a gyhoeddwyd ddoe gan Lywodraeth Cymru, bellach ar gael. Bydd y cyllid yn cynnwys tair elfen.

- Grantiau cysylltiedig ag Ardrethi Annomestig (NDR) o hyd at £6,000
  I dderbyn eu taliadau, bydd angen i fusnesau ailgofrestru eu

manylion ar-lein trwy wefan Cyngor Gwynedd, y gyfundrefn gofrestru i agor yr wythnos yn dechrau 10 Ionawr 2022.

- Cronfa Ddewisol Unig Fasnachwyr
  Bydd grantiau o £500-£2,000 i gefnogi unig fasnachwyr, gweithwyr llawrydd a busnesau nad ydynt yn talu ardrethi, yn cael eu gweinyddu gan Gyngor Gwynedd. Bydd mwy o wybodaeth am sut i ymgeisio am y grant yma ar gael ddechrau'r Flwyddyn Newydd.

- Ailagor Cronfa Cadernid Economaidd (ERF) Llywodraeth Cymru
  Bydd grantiau o hyd at £25,000 ar gael ar gyfer busnesau lletygarwch a hamdden yr effeithiwyd arnynt yn ddifrifol – a'u cadwyni cyflenwi. Fel gyda chylchoedd ERF blaenorol, bydd hyn yn cefnogi busnesau sydd wedi gweld gostyngiad o fwy na 60% yn eu trosiant. Bydd gwiriwr cymhwysedd ar gael ar wefan Busnes Cymru yn gynnar yn y Flwyddyn Newydd gyda cheisiadau'n agor yn ystod yr wythnos yn dechrau 17 Ionawr 2022.

O ganlyniad i'r pecynnau cymorth brys newydd, mae Llywodraeth Cymru yn tynnu ei Chronfa Cymorth Busnes gwerth £35m yn ôl, a gyhoeddwyd ym mis Tachwedd 2021, er mwyn ail-ddyrannu a phrosesu taliadau brys cyn gynted â phosibl. I ddarllen y datganiad yn llawn, ewch i:

https://llyw.cymru/datganiad-ysgrifenedig-120-miliwn-o-gymorth-brys-i-fusnesau

Unwaith bydd gwybodaeth pellach yn dod i law gan Llywodraeth Cymru yn fuan yn y Flwyddyn Newydd, byddwn yn eich hysbysu trwy fwletinau busnes Cyngor Gwynedd. Bydd gwybodaeth pellach hefyd ar gael ar:

https://www.gwynedd.llyw.cymru/busnescovid19
https://twitter.com/BusnesGwynedd

# COVID-19: Canllawiau wedi eu diweddaru

- Lefel Rhybudd 2:
  https://llyw.cymru/lefel-rhybudd-2-crynodeb

- Cysylltiadau COVID-19: canllawiau i staff iechyd a gofal cymdeithasol
  https://llyw.cymru/cysylltiadau-covid-19-canllawiau-i-staff-iechyd-gofal-cymdeithasol

- Hunanynysu:
  https://llyw.cymru/canllawiau-hunanynysu

- Olrhain cysylltiadau: os ydych chi wedi cael prawf positif:
  https://llyw.cymru/olrhain-cysylltiadau-os-ydych-chi-wedi-cael-prawf-positif

- Olrhain cysylltiadau: os cewch eich enwi fel cyswllt agos
  https://llyw.cymru/olrhain-cysylltiadau-os-cewch-eich-enwi-fel-cyswllt-agos

# Dymuniadau gorau ar gyfer 2022

Bydd bwletinau cefnogi busnes rheolaidd Cyngor Gwynedd yn dychwelyd yn y Flwyddyn Newydd. I gael y wybodaeth ddiweddaraf yn y cyfamser cadwch lygad ar:

https://twitter.com/BusnesGwynedd
https://twitter.com/CyngorGwynedd
https://twitter.com/_busnescymru
https://twitter.com/LlywodraethCym

Mae pawb yn nhîm cefnogi busnes Cyngor Gwynedd yn dymuno'r gorau i chi a'ch busnes dros gyfnod y Nadolig ac i mewn i 2022.

Mae mwy o wybodaeth defnyddiol i'w gael o:

## Cyngor Gwynedd – Cefnogaeth i Fusnes

https://www.gwynedd.llyw.cymru/busnescovid19
https://twitter.com/BusnesGwynedd

## Rhwydwaith Busnes Gwynedd

https://www.gwyneddbusnes.net/Hafan
https://twitter.com/gwyneddbusnes

## Busnes Cymru

https://businesswales.gov.wales/coronavirus-advice/cy/
https://twitter.com/_busnescymru

## Busnes@llandrillomenai

https://www.facebook.com/BusnesatLlandrilloMenai/posts
https://twitter.com/busnesLLM

## FSB Cymru

https://twitter.com/FSB_Wales

## Croeso Cymru

https://twitter.com/croesocymrubus

Cofrestru i dderbyn y newyddion diweddaraf
https://bit.ly/3klWPAU

---

Os nad ydych yn dymuno derbyn yr e-byst hyn bellach, os oes gennych gwestiwn, neu angen cyngor:
E-bostiwch busnes@gwynedd.llyw.cymru